

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Blaenau Gwent

Adroddiad ACI Cychwynnol – Crynodeb Annhechnegol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Rhagfyr 2019

Gwybodaeth Ansawdd

Paratowyd gan

Rosie Cox
Cynllunydd
Amgylcheddol

Chris McNulty
Uwch-gynllunydd
Amgylcheddol

Gwiriwyd gan

Alastair Peattie
Cyfarwyddwr Cyswllt

Dilyswyd gan

Nick Chisholm-Batten
Cyfarwyddwr Cyswllt

Cymeradwywyd gan

Nick Chisholm-Batten
Cyfarwyddwr Cyswllt

Cofnodi'r Diwygiadau

Diwygiad	Dyddiad diwygio	Manylion	Enw	Safle
v1	10/12/19	Drafft i'r cleient gael adolygu a rhoi sylwadau	Alastair Peattie	Cyfarwyddwr Cyswllt
V2	17/12/19	Ffurf derfynol ar gyfer ymgynghori ochr yn ochr â'r Strategaeth Ddewisol	Alastair Peattie	Cyfarwyddwr Cyswllt

Paratowyd ar gyfer:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Paratowyd gan:

AECOM Infrastructure & Environment UK Limited
3rd Floor, Portwall Place
Portwall Lane
BRYSTE/Bristol BS1 6NA
Lloegr

Ffôn: +44 117 901 7000
aecom.com

© 2019 AECOM Infrastructure & Environment UK Limited. Cedwir Pob Hawl.

Paratowyd y ddogfen hon gan AECOM Infrastructure & Environment UK Limited ("AECOM") at ddefnydd ein cleient (y "Cleient") yn unig, yn unol â'r egwyddorion ymgynghori a dderbynnir yn gyffredinol, y gyllideb ar gyfer ffioedd a chylch gorchwyl wedi'u cytuno rhwng AECOM a'r Cleient. Does dim gwybodaeth a ddarparwyd gan drydydd partïon ac a gyferir ati yma wedi'i gwirio na'i dilysu gan AECOM, oni bai bod hynny'n cael ei ddatgan yn benodol fel arall yn y ddogfen. Does yr un trydydd parti i ddibyynu ar y ddogfen hon heb ganiatâd penodol ysgrifenedig ymlaen llaw gan AECOM.

Tabl y Cynnwys

1.	Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
2.	Gwneud cynlluniau/ ACI hyd yn hyn.....	6
3.	Cagliadau arfarnu hyd yn hyn	19
4.	Y camau nesaf a monitro	23

Cyflwyniad

1. Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynwyd AECOM i arwain Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae ACI yn cyflawni gofynion a dyletswyddau Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG), Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI), Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LICD).
- 1.2 Mekanwaith ydy ACI ar gyfer ystyried a chyfathrebu effeithiau tebygol cynllun datblygol, a dewisiadau amgen yn nhermau materion cynaliadwyedd allweddol. Nod ACI ydy hysbysu a dylanwadu ar y broses gynllunio gyda golwg ar osgoi a lliniaru effeithiau negyddol a gwneud y gorau o effeithiau positif. Trwy'r dull hwn, mae ACI ar gyfer CDLIN yn ceisio gwneud y mwyaf o gyfraniad y cynllun datblygu at ddatblygu cynaliadwy.
- 1.3 Fel y nodwyd uchod, mae ACI yn ceisio cyflawni gofynion a dyletswyddau ar gyfer AC, AAS, AEG, AEI, AEIG a LICD. Y dull ydy integreiddio'r cydrannau hyn i ddarparu un broses asesu i hysbysudatblygiad y CDLIN. Ceir disgrifiad o bob un o'r cydrannau amrywiol hyn, ynghyd â'u pwrpas, isod.
- 1.4 Cyhoeddir yr Adroddiad ACI cychwynnol a'r Crynodeb Annhechnegol hwn ochr-yn-ochr â Strategaeth Ddewisol y CDLIN. Bydd unrhyw gyflwyniadau a dderbynnir yn cael eu hystyried ac fe gyhoeddir Adroddiad ACI a Chrynodeb Annhechnegol diwygiedig i ddilyn, ochr-yn-ochr â'r CDLIN wedi'i Adneuo.
- 1.5 Yn y bôn, mae adroddiadau ACI yn golygu ateb y cwestiynau canlynol yn eu tro:
 1. Beth mae creu cynlluniau/ACI wedi golygu hyd yn hyn?
 - Gan gynnwys mewn perthynas â 'dewisiadau amgen rhesymol'.
 2. Beth ydy casgliadau'r arfarnu hyd yn hyn?
 - h.y. mewn perthynas â'r Cynllun Drafft (h.y. y Strategaeth Ddewisol).
 3. Beth sy'n digwydd nesaf?
 - Pa gamau a gymerir i gwblhau (a monitro) y cynllun?
- 1.6 Atebir pob un o'r cwestiynau hyn yn eu tro isod. Yn gyntaf, fodd bynnag, mae gofyn gosod yr olygfa ymhellach trwy ateb y cwestiynau: i) Beth mae'r cynllun yn ceisio'i gyflawni? a ii) Beth ydy cwmpas yr AC?

Beth mae'r CDLI newydd yn gobeithio'i gyflawni?

- 1.7 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ('y Cyngor') yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd (CDLIN) ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Y CDLI ydy cynllun defnydd tir y Cyngor a fydd yn sefydlu faint o ddatblygiadau newydd fydd yn digwydd o fewn y Fwrdeistref Sirol dros y cyfnod 2018-2033. Fe fydd hefyd yn nodi pa ardaloedd sydd i'w diogelu rhag datblygiad, gan ddisodli'r Cynllun Datblygu Lleol presennol (CDLI 2006-2021, cyn gynted ag y caiff ei fabwysiadu.

Gweledigaeth ac Amcanion y CDLIN

1.8 Nodir y weledigaeth ar gyfer y CDLIN isod.

“Trwy weithio cydweithredol, erbyn 2033, bydd Blaenau Gwent wedi dod yn rwydwaith o gymunedau cymoedd cynaliadwy, bywiog sy'n cynnal lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol gyda:

- **economi ffyniannus, carbon isel lle mae gan bobl y sgiliau, gwybodaeth a'r cyfleoedd i anelu am ansawdd bywyd gwell;**
- *trigolion yn byw mewn cymunedau iach a diogel, **gyda chysylltiadau da**, mewn ystod o gartrefi o ansawdd d a gwell mynediad at wasanaethau, a'i*
- **amgylchfyd naturiol,** diwylliant a'i dreftadaeth unigryw wedi'i ddiogelu a'i wella, gan greu man lle mae pobl am fyw, gweithio ac ymweld â hi”.

1.9 Mae Gweledigaeth y CDLIN wedi'i rhannu'n bedwar deilliant a ystyrir yn ganolog i gyflenwi gweledigaeth y CDLIN wrth iddyn nhw gofleidio egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r cysyniad o greu lleoedd a mewnosod y dyletswyddau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

- **Deilliant 1:** Creu Rhwydwaith o Gymunedau Cymoedd Cynaliadwy Bywiog (Creu lleoedd)
- **Deilliant 2:** Creu Cyfleoedd ar gyfer Economi Ffyniannus Carbon Isel a Hyrwyddo Dysgu a Sgiliau
- **Deilliant 3:** Creu Cymunedau Actif ac Iach sydd â Chysylltiadau Da
- **Deilliant 4:** Diogelu a Gwella'r Amgylchfyd Naturiol ac Adeiledig Unigryw

1.10 O dan y pedwar prif Ddeilliant mae 19 amcan a gafodd eu nod ii fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol ac i adlewyrchu polisiâu a deddfwriaeth genedlaethol diweddar. Mae'r amcanion i'w gweld yn y tabl isod ac wedi'u strwythuro yn ôl y thema gysylltiedig.

Tabl 1.1: Amcanion CDLIN

Rhif amcan CDLIN	Pennawd	Amcan y CDLIN
Deilliant 1: Creu Rhwydwaith o Gymunedau Cymoedd Cynaliadwy Bywiog (Creu lleoedd)		
1	Strategaeth Ofodol	I hyrwyddo'r 4 prif anheddiad y Fwrdeistref Sirol fel ffocws prif gyflogaeth, datblygiad masnachol a phreswyl
2	Demograffeg	I gynyddu cyfleoedd i bobl fyw a gweithio o fewn i Flaenau Gwent, a thrwy hynny dyfu'r boblogaeth.
3	Creu Lleoedd	Dylai pob datblygiad gyfrannu at greu lleoedd deniadol, diogel a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n gwella'r gymuned lle y'u lleolir, tra ar yr un pryd, yn parchu'r amgylchfyd naturiol, hanesyddol ac adeilediga chefnogi a diogelu'r Gymraeg.
4	Newid Hinsawdd	I leihau effeithiau newid hinsawdd trwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn datblygiadau presennol a newydd, ac i addasu i newid hinsawdd gan ystyried ei effeithiau wrth gynllunio a lleoli datblygiadau newydd. Gellir gwneud hyn trwy: <ul style="list-style-type: none"> • Wneud y gorau o dir a ddatblygwyd eisoes; • Hyrwyddo aildefnydd ac adnewyddu tir ac adeiladau segur; • Trwy ffocysu datblygiadau i fwrdd o ardaloedd sy'n agored i lifogydd; • Trwy gynyddu cyflenwad ynni adnewyddol; • Annog swyddi cytbwys a thwf poblogaeth i leihau ein cymudo; • Darparu cysylltedd band eang er mwyn lleihau'r angen i deithio; • Darparu isadeiledd gwefru cerbydau allyriadau isel iawn i leihau allyriadau a gwella ansawdd aer; a • Darparu isadeiledd gwyrdd o ansawdd.

Rhif amcan CDLIN **Pennawd** **Amcan y CDLIN**

Deiliant 2: Creu Cyfleoedd ar gyfer Economi Ffyniannus Carbon Isel a Hyrwyddo Dysgu a Sgiliau

5	Twf Economaidd	I gefnogi twf economaidd trwy greu economi ffyniannus, amrywiol sydd wedi'i chysylltu'n dda sy'n darparu ystod o gyfleoedd cyflogi o ansawdd da i alluogi twf busnes cynhenid, denu mewnfuddsoddiad a busnesau arloesol cystadleuol mewn sectorau twf priodol.
6	Addysg a Sgiliau	I gyfrannu at wella isadeiledd addysg a sgiliau trwy sicrhau bod sgiliau a hyfforddiant yn cyfateb i sectorau twf economaidd a bod cyfleusterau ar gael i bawb.
7	Mwynau/ Gwastraff	I gyfarfod gofynion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol y Fwrdeistref Sirol i reoli a gwaredu ei wastraff a diogelu a defnyddio ei adnoddau mwynau mewn modd cynaliadwy.
8	Economi Gylchol	Hyrwyddo'r economi gylchol a gwneud y defnydd gorau o adnoddau materol er lles yr amgylchfyd adeiledig a naturiol.
9	Twristiaeth	Datblygu economi dwristiaeth cynyddol i gefnogi canol trefi cynaliadwy a bywiog, gan gydnabod rôl agosatrydd y Fwrdeistref Sirol at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, treftadaeth lleol a chyfleoedd hamdden.

Outcome 3: Creu Cymunedau Actif ac Iach sydd â Chysylltiadau Da

10	Tai	I wella ystod ac ansawdd tai trwy sicrhau bod datblygiadau newydd yn cynnwys cymysgedd o fathau a deiliadaeth tai a thrwy hynny ddarparu cartrefi fforddiadwy, hygrych o ansawdd ar gyfer trigolion presennol a'r dyfodol.
11	Canol Trefi	I gynnal a gwella rhwydwaith o 4 canol tref sy'n gwasanaethu eu poblogaethau'u hunain a dalgylchoedd cymoedd tra'n cydnabod bod rôl y canolfannau hyn yn esblygu.
12	Trafnidiaeth Gynaliadwy	I hyrwyddo hygrychedd i bawb trwy cerdded a seiclo (teithio actif), yna trafndiaeth gyhoeddus ac yn olaf cerbydau a thrwy hynny leihau llygredd trwy'r aer, yr angen i deithio a dibyniaeth ar gerbydau preifat.
13	Hygrychedd	I greu rhwydwaith o aneddiadau gyda chysylltiadau da lle mae gwasanaethau yn hawdd i'w cyrraedd trwy ddulliau cynaliadwy integredig gwell o drafnidiaeth.
14	Isadeiledd	I greu rhwydwaith hygrych o fannau gwyrdd agored ac isadeiledd llesiant a chymunedol o ansawdd uchel i gyfrannu at wella iechyd a lles.

Deiliant 4: Diogelu a Gwella'r Amgylchfyd Naturiol ac Adeiledig Unigryw

15	Ecosystemau	I ddiogelu, gwella a rheoli ecosystemau Blaenau Gwent trwy eu galluogi i addasu i newid hinsawdd trwy gysylltu manau presennol trwy greu cysylltedd a cherrig naid newydd.
16	Isadeiledd Gwyrdd	Hyrwyddo isadeiledd amlddefnydd gwyrdd gyda phwyslais ar yr integreiddio gyda datblygiadau presennol a newydd.
17	Tirwedd	I ddiogelu, gwella a rheoli tirwedd unigryw Blaenau Gwent i helpu meithrin twristiaeth cynaliadwy a pharch yn y gymuned.
18	Hanesyddol/ Diwylliannol	I ddiogelu a gwella amgylchfyd hanesyddol a diwylliannol Blaenau Gwent er mwyn cyfrannu at adfywiad yr ardal.
19	Ansawdd Amgylcheddol	I ddiogelu ansawdd dŵr, aer a phridd a mynd i'r afael â phob ffynhonnell llygredd, gan gynnwys sŵn.

Beth ydy cwmpas yr ACI?

- 1.11 Mae cwmpas yr ACI yn cael ei adlewyrchu'n bennaf mewn rhestr o amcanion cynaliadwyedd a ddatblygwyd wedi proses 'cwmpasu' (fu'n cynnwys ymgynghoriad ar gwmpas yr AC yn 2018). Rhwng y rhain, mae'r amcanion hyn yn dynodi paramedrau ACI, ac yn darparu 'fframwaith' methodolegol ar gyfer arfarnu.

Tabl 1.2: Fframwaith ACI

Thema ACI	Amcan ACI
Economi a Chyflogaeth	I hyrwyddo twf economaidd a gwneud y mwyaf o gyfraniad economaidd yr ardal i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, cryfhau ac amrywio'r economi, hyrwyddo twristiaeth, codi bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi a chynyddu ffyniant i bawb. I gynyddu lefelau cyflogaeth leol a sicrhau dosbarthu cyfleoedd, tra'n gwella cyrhaeddiad addysgol a chodi lefelau sgiliau.
Poblogaeth a Chymunedau	I ddarparu nifer diogonol o dai'r farchnad agored a fforddiadwy o ansawdd da mewn lleoliadau cynaliadwy i gwrdd â'r anghenion a glustnodwyd. I wella ansawdd dylunio i greu mannau gwych i bobl.
Iechyd a Llesiant	I wella iechyd a llesiant y boblogaeth, gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol, lles cymdeithasol a diogelwch cymunedol.
Cydraddoldebau, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol	I leihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol.
Trafnidiaeth a Symudiad	I wella hygyrchedd i bawb at y swyddi, gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen tra'n cefnogi gostyngiad yn y defnydd o drafnidiaeth breifat trwy hyrwyddo teithio actif ac annog newid moddol at drafnidiaeth gynaliadwy, a gwella hygyrchedd at gyfathrebu a chyfleustodau digidol.
Adnoddau Naturiol (Aer, Tir, Mwynau a Dŵr)	I nodi a dilyn trywydd unrhyw gyfleoedd i leihau, neu o leiaf gwneud y gorau i gyfyngu cysylltiad y boblogaeth â llygredd awyr. I wneud y defnydd gorau o dir ac adeiladau a ddatblygwyd eisoes, er mwyn lleihau'r pwysedd am ddatblygu ar feysydd glas a diogelu, lle bo'n bosib, tir amaethyddol o radd uchel. I hyrwyddo'r economi gylchol trwy leihau cynhyrchu gwastraff a gwneud y gorau o aildefnyddio ac ailgylchu, gan sicrhau defnydd adnoddau naturiol a darpariaeth cyflenwad digonol o fwynau. I gadw, diogelu a gwella'r amgylchfyd dŵr, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr.
Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth	I gadw, diogelu a gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o fewn ac o amgylch Blaenau Gwent.
Yr Amgylchfyd Hanesyddol	I gadw a gwella arwyddocâd amgylchfyd hanesyddol y Fwrdeistref Sirol, ei hasedau diwylliannol (gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg) a'i hasedau treftadaeth ynghyd â'u lleoliadau.
Tirwedd	I ddiogelu a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd.
Newid Hinsawdd	I liniaru ac addasu effeithiau newid hinsawdd trwy gynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiad ynni a'r defnydd o ffynnonellau ynni carbon isel ac adnewyddol.
Risg Llifogydd	I leihau a rheoli'r risg o lifogydd.

**Rhan 1: Beth mae creu
cynlluniau/ACI wedi golygu
hyd yn hyn?**

2. Cynlluniau a grëwyd/ ACI hyd yn hyn

- 2.1 Mae creu cynlluniau'n lleol wedi bod yn digwydd ers mis Hydref 2018, gydag ystod eang o dystiolaeth wedi'i chynhyrchu i arwain datblygiad y CDLIN. Mae **Tabl 2.1** yn gosod allan prif ddogfennau'r CDLIN a'r ACI., ynghyd â dyddiadau ymgynghori. Gellir gweld a lawrlwytho dogfennau'r CDLIN a sail y dystiolaeth (gan gynnwys Adroddiadau'r ACI) o wefan y Cyngor.¹

Tabl 2.1: Camau CDLI Newydd ac ACI

Dogfennau ac ymgynghoriadau'r CDLIN	Dogfennau ac ymgynghoriadau'r ACI
	Adroddiad Cwmpasu ACI Anfonwyd at ymgynghorai statudol am ymgynghoriad rhwng Hydref 31 ^{ain} a Rhagfyr 05 ^{ed} 2018
Strategaeth Ddewisol Ymgynghoriad cyhoeddus o ddydd Iau, Ionawr 16 ^{eg} 2020 hyd at ddydd Iau, Chwefror 27 ^{ain} 2020	Yr Adroddiad ACI Cychwynnol a'r Crynodeb Annhechnegol yma Ymgynghoriad cyhoeddus o ddydd Iau, Ionawr 16 ^{eg} 2020 hyd at ddydd Iau, Chwefror 27 ^{ain} 2020

- 2.2 Mae'r rhan hon o'r Crynodeb Annhechnegol yn gosod allan y gwaith a ymgymerwyd yn 2018/19 a arweiniodd at ddatblygu'r ddogfen Strategaeth Ddewisol sy'n ffocws i'r arfarnu presennol (gweler Rhan 2 isod) ac wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghori. Yn benodol, yn unol â gofynion rheoliadol (Rhestr 2 o Reoliadau AAS), mae gofyn esbonio sut yr ymgymerwyd â gwaith i ddatblygu ac yna arfarnu dewisiadau amgen rhesymol, a sut wnaeth y Cyngor wedyn ystyried casgliadau'r arfarnu wrth gwblhau'r cynllun drafft ar gyfer ei gyhoeddi.
- 2.3 Mae'r rhan hon o Adroddiad ACI a'r Crynodeb Annhechnegol hwn yn cyflwyno gwybodaeth ynghylch ystyriaethau o ddewisiadau amgen rhesymol. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig o gofio gofynion rheoliadol.²

Sefydlu Dewisiadau Amgen Rhesymol

Lefelau twf

- 2.4 Ar y cyd, fe gomisiynodd Cynghorau Sirol Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy Edge Analytics i baratoi ystod o senarios o dwf demograffig, tai a chyflogaeth i hysbysu'r CDLI diwygiedig.³ Hyd yn hyn, paratowyd unarddeg o wahanol senarios, pob un â deilliannau gwahanol o ran poblogaeth, anheddau a demograffeg. Fe gasglwyd y rhain i dri opsiwn o dwf isel, canolig ac uchel ar gyfer cyfnod y CDLIN (2018-2033). I bob opsiwn fe geir ffigur ar gyfer y cynnydd mewn poblogaeth, nifer y cartrefi newydd a'r effaith ar y nifer o bobl yn y gweithlu. Gwelir y tri opsiwn yn y tabl isod.

Tabl 2.2: Opsiynau twf

Opsiwn twf	Lefel tai a chyflogaeth
Opsiwn 1 – Twf isel (yn seiliedig ar egwyddor amcanestyniad 2014 diweddaraf LIC a mudo 10 mlynedd)	Poblogaeth: colled o rhwng 857 a 1,815 (-0.8% i 2.6% o golled) Tai: 19 - 54 y flwyddyn (Cyfanswm: 285 - 810) Cyflogaeth: colled o rhwng 94 a 59 y flwyddyn (Cyfanswm colled o rhwng 810 a 1,410 o swyddi)
Opsiwn 2 – Twf Canolig (yn seiliedig ar 3 amcanestyniad ar aneddiadau (cyfartaledd 5,10 a 15 mlynedd) a dim mudo Net)	Poblogaeth: 162 i 690 o gynnydd (0.2 i 1% o dwf) Tai: 79 - 94 y flwyddyn (Cyfanswm 1,185 - 1,410) Cyflogaeth: colled o rhwng 52 a 36 y flwyddyn (TCyfanswm colled o rhwng 540 a 780 o swyddi)

¹ <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/planning/local-development-plan/local-development-plan-2018-2033/>

² Mae gofyniad i'r Adroddiad AC gyflwyno arfarniad o 'dewisiadau amgen rhesymol' ac 'amlinellad o'r rhesymau dros y dewisiadau amgen sy'n cael eu trafod'. Erm ai nid yr droddiad AC ydy hwn, mae'n briodol, search hynny, i gyflwyno'r wybodaeth hon er budd rhanddeiliaid.

³ <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/planning/local-development-plan/local-development-plan-2018-2033/>

Opsiw'n twf**Lefel tai a chyflogaeth****Opsiw'n 3 – Twf uchel**

(yn seiliedig ar amcanestyniadau byrdymor, tymor canolig a hirdymor wedi'u haddasu gan PopGroup)

Poblogaeth: 1,996 i 5,009 o gynnydd (2.9% i 7.2% o dwf)

Tai: 141 - 226 y flwyddyn (Cyfanswm 2,115 - 3,390)

Cyflogaeth : -3 i 74 y flwyddyn (Cyfanswm -45 i 1,110 o swyddi)

Lleoliad y twf

2.5 Nododd y Cyngor dri opsiwn lefel uchel posib ar gyfer dosbarthiad twf yn ystod cyfnod y cynllun yn y Papur Briffio Opsiynau Strategaeth Ofodol (2019). Mae'r rhain fel a ganlyn:

- **Opsiw'n 1 (CDLI presennol)** - Gogledd (Glynebwy, Cwm, Tredegar, Trefil, Pochin, Bedwellte Pits a Bryn-mawr (yn cynnwys Nant-y-glo a Blaenau) / De (Abertyleri (yn cynnwys Cwmtlyeri, Six Bells, Brynithel, Llanhilledd ac Aber-big) a Swffryd) wedi'i rannu gyda'r rhan fwyaf o'r twf yn y gogledd gyda ffocws y twf yng Nglynebwy;
- **Opsiw'n 2 (Pwyslais ar Flaenau'r Cymoedd)** – Wedi'i rannu rhwng Gogledd/De yn seiliedig ar gyfleoedd am dwf ar hyd corridor Blaenau'r Cymoedd; ac
- **Opsiw'n 3 (Twf cytbwys)** – Twf wedi ddosbarthu'n gyfartal ar draws y fwrdeistref yn seiliedig ar gynaliadwyedd asesiadau aneddiadau.

2.6 I sicrhau bod twf yn cael ei ddosbarthu i'r aneddiadau mwyaf cynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru angen asesiad o rolau a swyddogaeth aneddiadau. Mae Llawlyfr CDLI drafft Llywodraeth Cymru'n gofyn bod hierarchiaeth yr aneddiadau clir yn cael ei nodi o fewn y CDLIN.

2.7 Mae'r CDLI presennol wedi asesu rôl a swyddogaeth aneddiadau wrth baratoi Cynlluniau Adfywio Camau Cyfannol ar gyfer Blaenau Gwent. Yn ychwanegol at hyn ac fel rhan o dystiolaeth CDLIN, mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad aneddiadau cynaliadwy. Mae pob un o'r aneddiadau wedi'u hasesu yn nhermau:

- Lefel trafndiaeth a hygyrchedd cynaliadwy yn ac o amgylch yr aneddiadau;
- Argaeledd cyfleusterau a gwasanaethau lleol yn ac o amgylch yr aneddiadau; a
- Lefel y cyfleoedd cyflogaeth yn ac o amgylch yr aneddiadau.

2.8 Cefnogir hyn gan wyodaeth cyd-destunol yn nhermau maint, a nodweddion yr aneddiadau. Nododd y Cyngor ddau opsiwn, yr opsiwn cyntaf yn seiliedig ar hierarchiaeth y CDLI presennol a'r ail yn seiliedig ar ffiniau'r anheddiad fel y'u diffinir yn y CDLI presennol. Nodir y ddau opsiwn yn y tabl isod.

Tabl 2.3: Opsiynau hierarchiaeth yr aneddiadau

Disgrifiad	Hierarchiaeth yr aneddiadau
Opsiw'n 1: CDLI presennol	<p>Prif Ganolfan: Glynebwy</p> <p>Canolfannau Rhanbarthol: Tredegar Bryn-mawr Abertyleri</p> <p>Canolfan Leol: Blaenau</p>
Opsiw'n 2: Yn seiliedig ar Asesiad Cynaliadwyedd Aneddiadau (defnyddiwyd ffiniau aneddiadau i nodi'r aneddiadau)	<p>Haen 1: Prif Aneddiadau Glynebwy Tredegar Bryn-mawr / Nant-y-glo / Blaenau Abertyleri /Cwmtlyeri / Six Bells / Brynithel / Llanhilledd /Aber-big</p> <p>Haen 2: Aneddiadau Eilaidd Cwm</p>

Disgrifiad**Hierarchiaeth yr aneddiadau****Haen 3: Pentrefi a Phentrefannau**

Trefil
Pochin
Bedwellte Pits
Swffryd

Opsiynau strategaeth ofodol

- 2.9 Cyfunodd y Cyngor yr opsiynau posib ar gyfer lefel a lleoliad twf i nodi pedwar opsiwn strategaeth ofodol realistig. Mae'r cyntaf, Opsiwn 1 (Twf ac Adfywiad) yn seiliedig ar y CDLI presennol, gan gynnwys lefel ganolig o dwf, gyda rhaniad gogledd-de a ffocws twf ar Lynebwy; a hierarchiaeth yr aneddiadau yn seiliedig ar ddadansoddiad o rolau trefi (y CDLI presennol).
- 2.10 Mae Opsiwn 2 (Cymunedau Cytbwys wedi'u Cydgysylltu) yn cynnwys lefel isel o dwf, gyda dosbarthiad cyfartal ledled y fwrdeistref ac yn seiliedig ar ddefnyddio asesiad aneddiadau cynaliadwy i ddosbarthu'r twf yma. Mae Opsiwn 3 (Strategaeth Twf Economaidd) yn cynnwys twf uchel gyda rhaniad gogledd-de yn seiliedig ar gyfleoedd twf ar hyd Blaenau'r Cymoedd gan ddefnyddio asesiad anheddiad cynaliadwy i ddosbarthu'r twf. Mae Opsiwn 4 (Twf Economaidd Cynaliadwy) yn debyg i Opsiwn 1 ond bod y twf wedi'i wasgaru'n gyfartal ledled y Fwrdeistref. Gwelir y pedwar opsiwn yn fwy eglur yn y tabl isod.

Tabl 2.4: Opsiynau strategaeth ofodol

Enw	Lefel Twf	Dosbarthiad Gofodol	Hierarchiaeth yr Aneddiadau
Opsiwn 1: Twf ac Adfywiad (CDLI presennol)	Opsiwn 2 Twf Canolig Poblogaeth: 162 i 690 o gynnydd (0.2 i 1% o dwf) Tai: 79-94 y flwyddyn (Cyfanswm 1,185-1,410) Cyflogaeth: colled o rhwng 52 a 36 y flwyddyn (Cyfanswm colled o rhwng 540 a 780)	Opsiwn 1 Rhaniad Gogledd / De gyda'r rhan fwyaf o'r twf yn y gogledd a ffocws y twf ar Lynebwy	Opsiwn 1 Prif Ganolfan: Glynebwy Canolfannau Rhanbarthol: Tredegar/ Bryn-mawr/ Abertyleri Canolfan Leol: Blaenau
Opsiwn 2: Cymunedau Cytbwys wedi'u Cydgysylltu	Opsiwn 1 Twf Isel Poblogaeth: Colled o rhwng 857 a 1,815 (-2.6 i -0.8% o golled) Tai: 19-54 y flwyddyn (Cyfanswm: 285-810) Cyflogaeth: colled o rhwng 94 a 59 y flwyddyn (yfanswm colled o -810 i 1,410)	Opsiwn 2 Twf wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ledled y fwrdeistref yn seiliedig ar asesiad aneddiadau cynaliadwy	Opsiwn 2 Haen 1: Prif Aneddiadau Glynebwy/ Tredegar/ Bryn-mawr / Nant-y-glo / Blaenau / Abertyleri / Cwmtlyeri / Six Bells / Brynithel / Llanhilledd / Aber-big Haen 2: Anheddiadau Eilaidd Cwm Haen 3: Pentrefannau Trefil/ Pochin/ Bedwellte Pits/ Swffryd
Opsiwn 3: Strategaeth Twf Economaidd	Opsiwn 3 Twf Uchel Poblogaeth: 1,996 i 5,009 (2.9 i 7% o dwf) Tai: 141 i 226 y flwyddyn (Cyfanswm 2,115 i 3,390) Cyflogaeth: 74 y flwyddyn (Cyfanswm -45 i dros 1,110)	Opsiwn 3 Rhaniad Gogledd / De yn seiliedig ar gyfleoedd am dwf ar hyd aneddiadau Blaenau'r Cymoedd	Opsiwn 2 Haen 1: Prif Aneddiadau Glynebwy/ Tredegar/ Bryn-mawr / Nant-y-glo / Blaenau / Abertyleri / Cwmtlyeri / Six Bells / Brynithel / Llanhilledd / Aber-big Haen 2: Anheddiadau Eilaidd Cwm Haen 3: Pentrefannau Trefil/ Pochin/ Bedwellte Pits/ Swffryd
Opsiwn 4: Strategaeth Twf Economaidd	Opsiwn 3 Twf Uchel Poblogaeth: 1,996 i 5,009 (2.9 i 7% o dwf)	Opsiwn 2 Twf wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ledled y	Opsiwn 2 Haen 1: Prif Aneddiadau Glynebwy/ Tredegar/ Bryn-mawr / Nant-y-glo / Blaenau / Abertyleri /

Enw	Lefel Twf	Dosbarthiad Gofodol	Hierarchiaeth yr Aneddiadau
Cynaliadwy	Tai: 141 i 226 y flwyddyn (Cyfanswm 2,115 i 3,390) Cyflogaeth: 74 y flwyddyn (Cyfanswm – 45 i dros 1,110)	fwrdeistref yn seiliedig ar asesiad aneddiadau cynaliadwy	Cwmtyleri / Six Bells / Brynithel / Llanhilledd / Aber-big Haen 2: Anheddiadau Eilaidd Cwm Haen 3: Pentrefannau Trefil/ Pochin/ Bedwellte Pits/ Swffryd Haen 2: Aneddiadau Eilaidd Cwm Haen 3: Pentrefannau Trefil/ Pochin/ Bedwellte Pits/ Swffryd

Arfarnu'r Dewisiadau Amgen Rhesymol

- 2.11 Roedd yr opsiynau statogol a nodwyd uchod yn destun arfarniad cymharol o dan bob thema ACI a chyflwynir y casgliadau cryno isod.
- 2.12 Archwiliodd yr asesiad yr effeithiau arwyddocaol tebygol ar y gwaelodlin, gan dynnu ar yr amcanion a'r themâu cynaliadwyedd a nodwyd trwy gwmpasu (gweler **Tabl 1.1**) fel fframwaith methodolegol. Yn seiliedig ar y dystiolaeth ar gael, fe wneir penderfyniad os oes effaith arwyddocaol yn debygol. Lle nad ydy hi'n bosib rhagweld effeithiau arwyddocaol tebygol ar sail tybiaethau rhesymol, gwneir ymdrechion i wneud sylwadau ar ragoriaethau cymharol y dewisiadau amgen mewn termau mwy cyffredinol ac i nodi yn ôl blaenoriaeth dewis. Mae'r rhif yn dynodi'r flaenoriaeth - does dim cysylltiad ag effeithiau arwyddocaol tebygol. Mae hyn yn ddefnyddiol, gan ei fod yn galluogi gwahaniaethu rhwng y dewisiadau amgen hyd yn oed lle nad oes modd gwahaniaethu rhyngddynt nhw yn nhermau 'effeithiau arwyddocaol'. Er enghraifft, os rhestrir opsiwn fel 1, yna bernir ei fod yn perfformio'n well yn erbyn thema ACI o'i gymharu ag opsiwn a restrir fel 2.

Lefel twf

Tabl 2.5: Crynodeb o gasgliadau arfarnu ar gyfer opsiynau lefelau twf

Themâu ACI	Gradd/ effaith arwyddocaol	Dosbarthiad a gradd		
		Opsiwn 1 – Twf isel	Opsiwn 2 – Twf canolig	Opsiwn 3 – Twf uchel
Economi a Chyflogaeth	Gradd	3	2	1
	Effaith arwyddocaol?	Oes - Negyddol	Nacoës	Oes - Cadarnhaol
Poblogaeth a Chymunedau	Gradd	3	2	1
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol
Iechyd a Llesiant	Gradd	2	1	1
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Ansicr	Ansicr
Cydraddoldebau, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol	Gradd	3	2	1
	Effaith arwyddocaol?	Nacoës	Nacoës	Oes - Cadarnhaol
Trafnidiaeth a symudiad	Gradd	=	=	=
	Effaith arwyddocaol?	Nacoës	Nacoës	Nacoës
Adnoddau Naturiol	Gradd	1	2	3
	Effaith arwyddocaol?	Nacoës	Ansicr	Ansicr
Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth	Gradd	=	=	=
	Effaith arwyddocaol?	Nacoës	Nacoës	Nacoës

Amgylchfyd Hanesyddol	Gradd	=	=	=
	Effaith arwyddcaol?	Nacoës	Nacoës	Nacoës
Tirwedd	Gradd	=	=	=
	Effaith arwyddcaol?	Nacoës	Nacoës	Nacoës
Newid Hinsawdd	Gradd	1	2	3
	Effaith arwyddcaol?	Nacoës	Nacoës	Nacoës

- 2.13 Ar gyfer themâu ACI yn ymwneud â thrafnidiaeth, bioamrywiaeth, tirwedd a'r amgylchfyd hanesyddol – bydd eu natur ac effeithiau arwyddocaol yn ddibynnol ar leoliad y twf ychwanegol a sut mae datblygiad yn cael ei gynllunio/weithredu. Does dim tystiolaeth ar hyn o bryd i awgrymu y byddai'r twf ychwanegol aydd yn yr arfaeth o dan Opsiynau 2 a 3 yn arwain at effaith negyddol arwyddocaol ar y themâu hyn, cyn belled â bod y datblygiad wedi'i leoli oddi wrth derbynyddion sensitif a/neu fod lliniaru addas yn cael ei ddarparu.
- 2.14 Nodir yr opsiynau twf uwch (2 a 3) fel rhai sy'n perfformio'n well yn erbyn themâu ACI sy'n ymwneud â'r economi a chyflogaeth, poblogaeth a chymunedau, iechyd a llesiant a chydraddoldebau, gan fod y twf ychwanegol yn darparu cyfle i gyflenwi ystod mwy o dai newydd, cyfleoedd cyflogaeth ac isadeiledd cymunedol er mwyn ateb anghenion y Bwrdeistref Sirol. Nododd yr arfarniad botensial am effaith gadarnhaol arwyddocaol hirdymor weddilliol gydag Opsiwn 3 ar themâu'r boblogaeth a chymunedau, economi a chyflogaeth a chydraddoldebau. Nodwyd potensial effaith gadarnhaol arwyddocaol hirdymor ar thema poblogaeth a chymunedau hefyd gydag Opsiwn 2. Mae Opsiwn 1 yn llai tebygol o fod ag effaith gadarnhaol arwyddocaol weddilliol ar y themâu hyn gan y byddai'n darparu dim ond lefel fach o dwf ychwanegol y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i ymrwymo neu'n debygol o ymddangos fel arian annisgwyl yn ystod cyfnod y CDLI newydd. Mae hi felly'n llai tebygol o gyflenwi ystod amrywiol o dai newydd, cyfleoedd cyflogaeth neu isadeiledd cymunedol. Mae gan y golled a ragwelir o ran swyddi, ynghyd â'r lefel isel o dwf mewn tai sydd yn yr arfaeth o dan Opsiwn 1, y potensial am effaith negyddol hirdymor arwyddocaol mewn perthynas â thema economi a chyflogaeth ACI.
- 2.15 Canfu'r arfarniad, wrth i lefel twf gynyddu, felly hefyd y tebygolrwydd o effeithiau negyddol ar adnoddau naturiol a newid hinsawdd trwy'r potensial o golled cynyddol meysydd glas/tir amaethyddol ac adnoddau mwynau, yn ogytal â chynyddu allyriadau carbon. Rhagwelir effaith ansicr gydag Opsiynau 2 a 3 yn erbyn thema adnoddau naturiol ar hyn o bryd gan na wyddys union leoliad y datblygiad. Os caiff y datblygiad ei weithredu yn bennaf ar dir glas ac adnoddau mwynau pwysig, yna mae effaith negyddol weddilliol yn debygol, gydag arwyddocaol hyn yn cynyddu wrth i lefel twf gynyddu. Os gellir cyfyngu'r rhan fwyaf o'r datblygiad ar dir llwyd, yna y mae potensial am effaith gadarnhaol.

Lleoliad y twf

Tabl 2.6: Crynodeb o gasgliadau arfarnu opsiynau dosbarthu

Themâu ACI	Gradd/ effaith arwyddocaol	Dosbarthiad a gradd		
		Opsiwn 1 – CDLI presennol	Opsiwn 2 – Pwyslais ar Flaenau'r Cymoedd	Opsiwn 3 – Twf cytbwys
Economi a Chyflogaeth	Gradd	1	1	2
	Effaith arwyddcaol?	Nacoës	Nacoës	Nacoës
Poblogaeth a Chymunedau	Gradd	1	2	3
	Effaith arwyddcaol?	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol
Iechyd a Llesiant	Gradd	1	2	3

	Effaith arwyddcaol?	Nacoes	Nacoes	Nacoes
Cydraddoldebau, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol	Gradd	1	2	3
	Effaith arwyddcaol?	Nacoes	Nacoes	Nacoes
Trafnidiaeth a symudiad	Gradd	1	2	3
	Effaith arwyddcaol?	Nacoes	Nacoes	Nacoes
Adnoddau Naturiol	Gradd	=	=	=
	Effaith arwyddcaol?	Nacoes	Nacoes	Nacoes
Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth	Gradd	2	2	1
	Effaith arwyddcaol?	Ansicr	Ansicr	Nacoes
Amgylchfyd Hanesyddol	Gradd	=	=	=
	Effaith arwyddcaol?	Nacoes	Nacoes	Nacoes
Tirwedd	Gradd	1	1	2
	Effaith arwyddcaol?	Nacoes	Nacoes	Nacoes
Newid Hinsawdd	Gradd	3	2	1
	Effaith arwyddcaol?	Ansicr	Ansicr	Ansicr

- 2.16 Canfu'r arfarniad nad oes fawr i wahaniaethu rhwng Opsiynau ar hyn o bryd o ran themâu ACI amgylchfyd hanesyddol ac adnoddau naturiol. Mae hyn o gofio fod gan pob un o'r Opsiynau botensial effeithiau trwy gyfeirio datblygiadau at ardaloedd sy'n sensitif yn nhermau treftadaeth, aer, tir, cyfyngiadau ar fwynau a dŵr, er mewn gwahanol ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol. Mae gan ddatblygiadau hefyd y potensial i gyflwyno effeithiau cadarnhaol trwy liniaru a mesurau gwella'r amgylchfyd a sicrhau'r raddfa'r brosiect. Er na ragwelir effeithiau negyddol arwyddocaol ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau, fy fydd hyn, yn y pen draw, yn ddibynnol ar union leoliad a chynllun/patrwm unrhyw ddatblygiad.
- 2.17 Yn nhermau thema'r dirwedd, mae Opsiynau 1 a 2 yn cyfeirio datblygiadau tuag at ardaloedd mwy trefol yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol, sy'n llai sensitif yn nhermau tirwedd na'r de. Mae Opsiwn 3 yn dosbarthu twf yn gyfartal ledled y Fwrdeistref Sirol ac felly'n fwy tebygol i effeithio ar brif olygfeydd ac amwynderau gweledol y de. Felly, Opsiwn 3 sy'n perfformio waethaf yn y cyswllt yma. I'r gwrthwyneb, Opsiwn 3 sy'n perfformio orau yn nhermau thema ACI bioamrywiaeth, o dderbyn y bydd twf wedi'i wasgaru'n osgoi crynhoi twf yn agos at ddynodiadau bioamrywiaeth sensitif, gan osgoi, yn benodol, y safleoedd bioamrywiaeth a ddynodwyd yn Ewropeaidd ac yn genedlaethol yng ngogledd-ddwyrain Blaenau Gwent. Fodd bynnag, er yr ystyrir Opsiynau 1 a 2 yn fwy tebygol o arwain at effeithiau negyddol ar safleoedd bioamrywiaeth dynodedig yn y gogledd, fe all yr Opsiynau hyn (yn enwedig Opsiwn 1) gynnig cyfle pellach i gyflenwi datblygiad ar raddfa fawr gyda mwy o botensial i gyflenwi isadeiledd gwyrdd strategol, gan gynnwys y potensial o enillion net mewn bioamrywiaeth ar raddfa fwy. Fodd bynnag, ansicr ydy hyn ar hyn o bryd.
- 2.18 Opsiwn 1 sy'n perfformio orau yn erbyn themâu ACI sy'n ymwneud â chymunedau, iechyd, economi, trafniadaeth, a chydraddoldebau, gydag Opsiwn 2 yn dilyn ac fe welir Opsiwn 3 fel yr un sy'n perfformio waethaf. Rhagwelir effeithiau cadarnhaol o'r arwyddocâd mwyaf trwy Opsiwn 1 fel canlyniad i ffocysu mwy o dwf yn y prif ganolfan, sef Glynebwy, lle ceir gwell hygrychedd i gyflogaeth a chyfleusterau/gwasanaethau presennol, a chyfle i gyflawni adfywiad ar raddfa

fawr. Bydd hyn yn help i leihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat, annog symudiad moddol a chefnogi cymunedau cynaliadwy sydd wedi'u cysylltu.

- 2.19 Mae Opsiwn 2 hefyd yn cyfeirio twf at Flaenau'r Cymoedd, gyda llai o bwyslais ar Lynebwy. Mae Opsiwn 2 felly'n perfformio'n llai cadarnhaol nag Opsiwn 1 gan y byddai'n golygu lefel uwch o dwf mewn aneddiadau is ledled Blaenau'r Cymoedd, gan leihau'r cyfleoedd i fanteisio ar adfywiad strategol yng Nglynebwy. Fodd bynnag, byddai Opsiwn 2 yn arwain at effeithiau cadarnhaol trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer adfywiad ychwanegol yn yr aneddiadau eraill (nid Glynebwy) yn y gogledd. Byddai hynny'n arwain at cysylltedd ac integreiddio gwell ledled Blaenau'r Cymoedd, gan fynd i'r afael â materion allweddol megis fforddiadwyedd tai ac amddifadedd.
- 2.20 Dydy Opsiwn 3 ddim yn perfformio cystal o gofio bod yr hygyrchedd i drafnidiaeth cynaliadwy, cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau/gwasanaethau yn y Fwrdeistref Sirol yn ehangach yn gyffredinol yn salach. Fodd bynnag, cydnabyddir bod gorsaf drenau yn Llanhilledd ac estyniad arfaethedig i lein reilffordd Glynebwy i Abertyleri trwy'r prosiect Metro. Mae cyflenwi twf cytbwys, fodd bynnag, yn debygol o annog y tueddiad tuag at ddefnydd o gerbydau preifat a gall hynny effeithio ar aelodau mwyaf bregus a llai symudol y gymuned, megis yr oedrannus. Tra byddai Opsiwn 3 yn cyflenwi lefel o dwf i gymunedau gwledig yn y de a chyfrannu tuag at gwrdd ag anghenion lleol, ystyrir y byddai'r Opsiwn hwn yn llai tebygol o gyflenwi twf ar raddfa fwy ac felly darparu'r mäs critigol i gyflenwi gwelliannau mwy i'r isadeiledd. Gallai hynny arwain at faterion demograffig gwaetha lefelau cynyddol o allgymudo. Cydnabyddir hefyd bod gan y de lai o gyfleoedd i ddatblygu o gofio'r cyfyngiadau topograffig sy'n bresennol.
- 2.21 Nodir bod Opsiwn 3 yn perfformio'n well nag Opsiynau 1 a 2 yn nhermau thema newid hinsawdd gan ei fod yn cyfeirio llai o dwf tuag at ardaloedd sydd â risg uchel o lifogydd. Fodd bynnag, cydnabyddir y byddai pob datblygiad newydd yn cydymffurfio â Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 15: Datblygiadau a Risg Llifogydd (2004), sy'n nodi fframwaith rhagofalus i gyfeirio datblygiadau newydd oddi wrth yr ardaloedd hynny sydd â risg uchel o lifogydd. I'r perwyl hwn, yn unol â pholisi cenedlaethol, bydd gofyn darparu gwybodaeth i ddangos bod unrhyw gais datblygu yn bodloni'r profion a geir yn NCT.
- 2.22 Fe ddylid nodi na chafodd ei ystyried yn angenrheidiol i gynnal arfarniad o opsiynau hierarchiaeth yr aneddiadau a nodir ym Mhennod 5. Cynhaliwyd asesiad manwl gan y Cyngor ar rôl a swyddogaeth bresennol aneddiadau, a moedd hefyd yn ystyried y gyberthynas rhwng aneddiadau â'u rolau posib yn y dyfodol. Cafodd yr effeithiau arwyddocaol tebygol o ffocysu twf mewn gwahanol ardaloedd oddi fewn i'r Fwrdeistref Siro leu harchwilio trwy arfarnu'r opsiynau dosbarthiad uchod a'r opsiynau strategaeth ofodol isod.

Strategaeth ofodol

Tabl 2.7: Crynodeb o gasgliadau arfarnu opsiynau strategaeth ofodol

Themâu ACI	Gradd/Effeithiau Arwyddocaol	Dosbarthiad a gradd			
		Opsiwn 1 – Twf ac adfywiad (CDLI presennol)	Opsiwn 2 – Cymunedau cytbwys wedi'u cydgyssylltu	Opsiwn 3 – Strategaeth twf economaidd	Opsiwn 4 – Strategaeth twf economaidd cynaliadwy
Economi a Chyflogaeth	Gradd	2	3	1	1
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Oes - Negyddol	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol
Poblogaeth a Chymunedau	Gradd	2	3	1	1
	Effaith arwyddocaol?	Nacoës	Oes - Negyddol	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol
Iechyd a Llesiant	Gradd	3	4	1	2
	Effaith arwyddocaol?	Ansicr	Nacoës	Oes - Cadarnhaol	Ansicr
Cydraddoldebau	Gradd	2	3	1	2

, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol	Effaith arwyddcaol?	Oes - Cadarnhaol	Nacoës	Oes - Cadarnhaol	Oes - Cadarnhaol
Trafnidiaeth a symudiad	Gradd	2	4	1	3
	Effaith arwyddcaol?	Ansicr	Nacoës	Oes - Cadarnhaol	Ansicr
Adnoddau Naturiol	Gradd	1	1	2	2
	Effaith arwyddcaol?	Nacoës	Nacoës	Ansicr	Ansicr
Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth	Gradd	2	1	4	3
	Effaith arwyddcaol?	Nacoës	Nacoës	Ansicr	Nacoës
Amgylchfyd Hanesyddol	Gradd	2	1	4	3
	Effaith arwyddcaol?	Nacoës	Nacoës	Ansicr	Ansicr
Tirwedd	Gradd	1	1	2	3
	Effaith arwyddcaol?	Nacoës	Nacoës	Nacoës	Ansicr
Newid Hinsawdd	Gradd	2	1	3	3
	Effaith arwyddcaol?	Nacoës	Nacoës	Nacoës	Nacoës

2.23 Ystyrir i Opsiynau 3 a 4 berfformio'n well o'u cymharu ag Opsiynau 1 a 2 yn erbyn themâu ACI yn ymwneud â'r economi a chyflogaeth, poblogaeth a chymunedau, iechyd a llesiant, a chydrraddoldebau, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol. Mae nhw'n cynnig lefel uwch o dwf mewn tai a chyflogaeth ac felly'n fwy tebygol o gwrdd ag anghenion y fwrdeistref. Mae nhw hefyd yn fwy tebygol o gyflenwi mwy o welliannau i isadeiledd cymunedol a'r cyhoedd. Gall cyflenwi catrferfi newydd, cyfleoedd cyflogaeth a'r isadeiledd cysylltiedig helpu fynd i'r afael ag amddifadedd a lleihau allgáu cymdeithasol. Fel canlyniad, fe'u nodir fel rhai sydd â photensial effeithiau cadarnhaol hirdymor arwyddocaol yn erbyn themâu sy'n ymwneud â'r economi/ cyflogaeth, poblogaeth/ cymunedau a chydrraddoldebau/ amrywiaeth/ cynhwysiant cymdeithasol. Dydy Opswin 2 ddim yn perfformio cystal yn erbyn y themâu ACI hyn gan ei fod yn cynnig y lefel isaf o dwf ac yn annhebygol o gwrdd ag anghenion cymunedau. Nodir fod ganddo felly'r potensial am effaith negyddol hirdymor arwyddocaol yn erbyn themâu'r economi a chyflogaeth a phoblogaeth a chymunedau.

2.24 Mae Opsiynau 3 a 4 yn gyffredinol yn perfformio'n fwy gwael yn erbyn themâu ACI yn ymwneud â bioamrywiaeth, yr amgylchfyd hanesyddol, tirwedd, adnoddau naturiol a newid hinsawdd. Mae'r lefelu uchw o dwf yn cynyddu'r tebygolrwydd o effeithiau ac felly effeithiau negyddol; fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar leoliad datblygiad. Nodir Opsiwn 3 fel yr un fwyaf tebygol o arwain at effeithiau ar dderbynyddion sensitif bioamrywiaeth a'r amgylchfyd hanesyddol yn ngogledd y fwrdeistref. Tr abo Opsiwn 1 yn cynnig dosbarthiad tebyg o ddatblygiad, mae'n cynnig lefel twf sy'n gyffredinol is ac felly'n llai tebygol o fod ag effeithiau negyddol. Mae Opsiwn 4 yn fwy tebygol o gael effeithiau ar y dirwedd sensitif yn ne'r fwrdeistref.

2.25 Yn nhermau trafndiaeth a symudiad, ystyrir Opsiwn 3 fel yr un a fyddai'n perfformio orau ar hyn o bryd ac fe nodir ei fod yn debygol o gael effaith gadarnhaol hirdymor arwyddocaol. Mae'n cyflenwi lefel uchel o dwf ac yn ei ffocysu (tai newydd, swyddi ac isadeiledd cymunedol) yn yr aneddiadau uwch ng ngogledd y fwrdeistref gyda mynediad da i dtrafnidiaeth gyhoeddus. Tr abo Opsiwn 1 yn cynnig dosbarthiad tebyg o ddatblygiad gyda mwy o ffocws ar Lynebwy, mae hyfyd yn cynnig lefel is o dwf ac ni fyddai'n cyflenwi'r un lefel o gyfleoedd cyflogaeth na'r gwelliannau mewn isadeiledd cymunedol o'i gymharu ag Opsiwn 3. Dydy Opsiwn 4, ac yn enwedig Opsiwn 2, ddim yn perfformio cystal gan eu bod yn cynnig dosbarthu twf yn gyfartal ledled y fwrdeistref, a fyddai'n cynnwys aneddiadau is ac ardaloedd gwledig. Dydy hyn ddim yn helpu lleihau'r angen i deithio nac yn annog y defnydd o ffyrffau trafndiaeth mwy cynaliadwy.

Datblygu Strategaeth Ddewisol

2.26 Mae'r Bennod hon yn cyflwyno ymateb y Cyngor i arfarniad y dewisiadau amgen a rhesymau'r Cyngor dros ei ddewis dull yng ngoleuni'r arfarniad hwnnw a ffactorau eraill.

Amlinelliad o resymau'r Cyngor dros ei ddewis o strategaeth

Lefel twf

Tabl 7.1: Rhesymau amlinellol dros y dewis opsiwn twf

Opsionau (math)	Rhesymau amlinellol
Opsionau Twf Isel o Options	
(Demograffeg) Egwyddor LIC yn seiliedig ar 2014	Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 10 (Rhagfyr 2018) yn nodi y dylid ystyried Amcanestyniad Aelwydydd Cymru diweddaraf Llywodraeth Cymru ar lefel awdurdod lleol. Defnyddiwyd yr amcanestyniadau diweddaraf sydd ar gael, sef amcanestyniadau 2014 ac fe seilir y senario yma ar y Prif amcanestyniad. Fe fyddai defnyddio'r senario hon fel strategaeth twf ar gyfer y CDLIN yn arwain at dwf poblogaeth negyddol a byddai'n effeithio'n andwyol ar heriau'r Cyngor ar gyfer twf economaidd a thai. Ni fyddai'r cyfuniad o leihad ym mhoblogaeth carfannau'r gweithlu a chynnydd yn y garfan dros 60 oed ddim yn ysgogi creu swyddi; yn hytrach, fe fyddai'n golygu all-lif o weithwyr a thrigolion o'r Fwrdeistref Sirol. Canlyniad hyn fyddai goblygiadau yn nhermau cadw pobl iau i fyw a gweithio oddi fewn i'r Fwrdeistref Sirol. Fe fyddai'r anghydbwysedd demograffig a'r diffyg cyfleoedd yn effeithio ar allu'r Fwrdeistref Sirol i adeiladu cymunedau cynaliadwy.
(Demograffeg) Mudo 10 mlynedd LIC	Fel gyda'r opsiwn uchod, defnyddiwyd amcanestyniadau'n seiliedig ar 2014 ac mae'r senario hon yn seiliedig ar yr amcanestyniad mudo 10 mlynedd. Yn yr un modd, fe fyddai defnyddio'r senario hon fel y strategaeth twf ar gyfer y CDLIN yn arwain at dwf poblogaeth negyddol ac fe fyddai'n effeithio'n andwyol ar heriau twf economaidd a thai y Cyngor. Ni fyddai'r cyfuniad o leihad ym mhoblogaeth carfannau'r gweithlu a chynnydd yn y garfan dros 60 oed ddim yn ysgogi creu swyddi; yn hytrach, fe fyddai'n golygu all-lif o weithwyr a thrigolion o'r Fwrdeistref Sirol. Canlyniad hyn fyddai goblygiadau yn nhermau cadw pobl iau i fyw a gweithio oddi fewn i'r Sir. Fe fyddai'r anghydbwysedd demograffig a'r diffyg cyfleoedd yn effeithio ar allu'r Fwrdeistref Sirol i adeiladu cymunedau cynaliadwy.
(Demograffeg) Gwaelodin OE	Seiliwyd rhagolwgn economaidd 'Gwaelodin' <i>Oxford Econometrics</i> ar amcanestyniad tebyg i'r un a gyflwynwyd ym (Mhrif) senario 2014 LIC. Fel gyda senarios blaenorol, fe fyddai defnyddio'r senario hon fel y strategaeth twf ar gyfer y CDLIN yn arwain at dwf poblogaeth negyddol ac fe fyddai'n effeithio'n andwyol ar heriau twf economaidd a thai y Cyngor. Ni fyddai'r cyfuniad o leihad ym mhoblogaeth carfannau'r gweithlu a chynnydd yn y garfan dros 60 oed ddim yn ysgogi creu swyddi; yn hytrach, fe fyddai'n golygu all-lif o weithwyr a thrigolion o'r Fwrdeistref Sirol. Canlyniad hyn fyddai goblygiadau yn nhermau cadw pobl iau i fyw a gweithio oddi fewn i'r Fwrdeistref Sirol. Fe fyddai'r anghydbwysedd demograffig a'r diffyg cyfleoedd yn effeithio ar allu'r Fwrdeistref Sirol i adeiladu cymunedau cynaliadwy.
Opsionau Twf Canolig	Roedd 29% o randdeiliaid yn cefnogi'r opsiynau twf canolig.
(Aneddleoedd) Cyfartaledd 5 mlynedd ar sail Aneddleoedd	Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli 'busnes fel arfer', h.y. cynnal cyfradd twf 5 mlynedd cyfartalog a fu. Canlyniad hynny fyddai parhau'r tueddiad tuag at demograffeg sy'n heneiddio, er y twf bach yn y boblogaeth (0.2%). Fe fyddai mabwysiadu'r senario hon fel y strategaeth twf ar gyfer y CDLLN yn cynrychioli methiant i fynd i'r afael â'r heriau o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Ni fyddai'r cyfuniad o leihad ym mhoblogaeth rhannau o garfannau'r gweithlu a chynnydd yn y garfan dros 60 oed ddim yn ysgogi creu swyddi; yn hytrach, fe fyddai'n golygu all-lif o weithwyr a thrigolion o'r Fwrdeistref Sirol. Canlyniad hyn eto fyddai goblygiadau yn nhermau cadw pobl iau i fyw a gweithio oddi fewn i'r Fwrdeistref Sirol. Fe fyddai'r anghydbwysedd demograffig a'r diffyg cyfleoedd yn effeithio ar allu'r Fwrdeistref Sirol i adeiladu cymunedau cynaliadwy.
(Demograffeg) Net Dim Mudo	Defnyddiwyd yr amcanestyniadau diweddaraf, yn seiliedig ar amcanestyniadau 2014, ac mae'r senario hon yn seiliedig ar amcanestyniad Net Dim Mudo. Byddai defnyddio'r senario hon fel y strategaeth twf ar gyfer y CDLIN yn golygu 'busnes fel arfer' ac ddim yn cefnogi heriau twf economaidd a thai y Cyngor. Er y byddai cynnydd bach yn y boblogaeth (0.3%), fe fyddai lleihad ym mhoblogaeth carfannau'r gweithlu a chynnydd yn y garfan dros 60 oed heb ddim ysgogiad i greu swyddi; yn hytrach, fe fyddai'n golygu all-lif o weithwyr a thrigolion o'r Fwrdeistref Sirol. Canlyniad hyn fyddai goblygiadau yn nhermau cadw pobl iau i fyw a gweithio oddi fewn i'r

Fwrdeistref Sirol. Fe fyddai'r anghydbwysedd demograffig a'r diffyg cyfleoedd yn effeithio ar allu'r Fwrdeistref Sirol i adeiladu cymunedau cynaliadwy.

(Aneddleoedd) Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli 'busnes fel arfer', sef cynnal y gyfradd adeiladu 10 mlynedd Cyfartaledd 10 mlynedd ar sail Aneddleoedd cyfartalog a fu, sef parhâd o'r tueddiad tuag at demograffeg sy'n heneiddio, er y byddai codiad bach yn y boblogaeth (1%). Fel gyda'r senario flaenorol, fe fyddai mabwysiadu'r senario hon fel y strategaeth twf ar gyfer y CDLLN yn cynrychioli methiant i fynd i'r afael â'r heriau o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Ni fyddai'r cyfuniad o leihad ym mhoblogaeth rhannau o garfannau'r gweithlu a chynnydd yn y garfan dros 60 oed ddim yn ysgogi creu swyddi; yn hytrach, fe fyddai'n golygu all-lif o weithwyr a thrigolion o'r Fwrdeistref Sirol. Canlyniad hyn eto fyddai goblygiadau yn nhermau cadw pobl iau i fyw a gweithio oddi fewn i'r Fwrdeistref Sirol. Fe fyddai'r anghydbwysedd demograffig a'r diffyg cyfleoedd yn effeithio ar allu'r Fwrdeistref Sirol i adeiladu cymunedau cynaliadwy

(Aneddleoedd) Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli 'busnes fel arfer', sef cynnal y gyfradd adeiladu 15 mlynedd Cyfartaledd 15 mlynedd ar sail Aneddleoedd cyfartalog a fu, sef parhâd o'r tueddiad tuag at demograffeg sy'n heneiddio, er y byddai codiad bach yn y boblogaeth (1.2%). Fel gyda'r senario flaenorol, fe fyddai mabwysiadu'r senario hon fel y strategaeth twf ar gyfer y CDLLN yn cynrychioli methiant i fynd i'r afael â'r heriau o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Ni fyddai'r cyfuniad o leihad ym mhoblogaeth rhannau o garfannau'r gweithlu a chynnydd yn y garfan dros 60 oed ddim yn ysgogi creu swyddi; yn hytrach, fe fyddai'n golygu all-lif o weithwyr a thrigolion o'r Fwrdeistref Sirol. Canlyniad hyn eto fyddai goblygiadau yn nhermau cadw pobl iau i fyw a gweithio oddi fewn i'r Fwrdeistref Sirol. Fe fyddai'r anghydbwysedd demograffig a'r diffyg cyfleoedd yn effeithio ar allu'r Fwrdeistref Sirol i adeiladu cymunedau cynaliadw. Yng ngoleuni'r effeithiau negyddol hyn, ystyrir nad ydy hi'n ddoeth i barhau gyda hwn fel yr opsiwn twf dewisol.

Opsiynau Twf Uchel Roedd y rhanddeiliaid yn gyffredinol yn cefnogi'r opsiynau twf uchel (71%)

(Demograffeg) Twf Poblogaeth Byrdymor Canlyniad yr opsiwn hwn ydy lefel resymol o dwf (2.9%) ym mhoblogaeth y Fwrdeistref Sirol ac hefyd codiad yn lefelau cyflenwi aneddleoedd cyfredol. Canlyniad y senario hon ydy gostyngiad bach yn y boblogaeth oed gwaith. Er, pan roddir ystyriaeth i gynlluniau i leihau'r gyfradd diweithdra, cynyddu'r gyfradd cyflogaeth a gostwng trethi cymudo, mae'r effeithiau ar yr economi yn gadarnhaol. Gall y senario hon ar sail demograffig arwain at strategaeth twf i'r Fwrdeistref Sirol nad ydy'n bosib ei chyflenwi.

(Demograffeg) Twf Poblogaeth Hirdymor Mae'r opsiwn hwn yn arwain at dwf gweddol arwyddocaol ym mhoblogaeth y Fwrdeistref Sirol (4.9%) ac hefyd codiad yn lefelau cyflenwi aneddleoedd cyfredol. Canlyniad y senario ydy hwb i'r boblogaeth oed gweithio a'r grŵp 0-14 oed. Fe fyddai'r senario hon ar sail demograffeg yn uchelgeisiol o ran gyrru dyheuadau economaidd ond gall arwain at strategaeth twf i'r Fwrdeistref Sirol nad ydy'n bosib ei chyflenwi ac yn anghynaliadwy.

(Demograffeg) Twf Poblogaeth Hirdymor (wedi'i addasu) Mae'r opsiwn hwn yn arwain at dwf arwyddocaol ym mhoblogaeth y Fwrdeistref Sirol (7.9%) ac hefyd codiad yn lefelau cyflenwi aneddleoedd cyfredol. Canlyniad y senario ydy hwb i'r boblogaeth oed gweithio a'r grŵp 0-14 oed. Mae'r rhagdybiaethau y tu ôl i'r opsiwn hwn yn cynnwys yr ystyriaeth o ddileu tollau ar Bont Hafren; fodd bynnag, er y byddai hyn yn annhebygol o gynyddu mewn fudo i'r Fwrdeistref Sirol, mae hi'n parhau i fod yn aneglur faint o hwb fyddai o ganlyniad i'r newid hwn. Fe fyddai'r senario hon ar sail demograffeg yn uchelgeisiol o ran gyrru dyheuadau economaidd ond gall arwain at strategaeth twf i'r Fwrdeistref Sirol nad ydy'n bosib ei chyflenwi ac yn anghynaliadwy.

(Aneddleoedd) Yn seiliedig ar Aneddleoedd - 120 Cyflwynwyd yr opsiwn hwn o'r newydd i fynd i'r afael â phryderon ynglŷn â'r gallu i gyflenwi opsiynau twf uchel. Mae'n cynrychioli gwelliant ar dueddiadau blaenorol ond ychydig yn is na'r opsiynau twf uchel a ystyriwyd i ddechrau. Canlyniad yr opsiwn hwn ydy lefel resymol o dwf (2.1%) ym mhoblogaeth y Fwrdeistref Sirol ac hefyd codiad yn lefelau cyflenwi aneddleoedd cyfredol. Mae'r senario hon yn arwain at ostyngiad bach ym mhoblogaeth oed gweithio. Er pan roddir ystyriaeth i gynlluniau i ostwng y gyfradd diweithdra, cynyddu'r gyfradd cyflogaeth a gostwng trethi cymudo, mae'r effeithiau ar yr economi yn gadarnhaol. Ystyrir y senario hon yn un y mae modd ei chyflawni.

2.27 Mae hi'n glir o'r dadansoddiad, er bod cryn gefnogaeth i'r opsiynau twf uchel yn ystod cyfnod ymgysylltiad â rhanddeiliaid, a'u bod wedi perfformio'n well yn erbyn heriau'r CDLI a osodwyd, yr ystyriwyd nad oedd posib eu cyflawni. Tra bod yr isaf o'r opsiynau twf uchel yn cael ei gario ymlaen fel y lefel o dwf i ymgyrraedd ati, cynhaliwyd senario newydd ar sail ffigur aneddleoedd o 120 er mwyn sicrhau twf mewn poblogaeth a oedd yn gyraeddadwy. Mae twf economaidd i'w gyflawni trwy ostwng y gyfradd diweithdra, cynyddu'r gyfradd cyflogaeth a lleihau'r trethi allgymudo. Ar y cyd, fe fyddai'r newidiadau hyn yn cael effeithiau cadarnhaol ar yr economi.

Dosbarthiad twf

Opsionau (math)	Rhesymau amlinellol
Opsion 1: CDLI presennol- Yn seiliedig ar raniad gogledd-de gyda'r prif ffocws twf ar Lynebwy	Ystyrir nad ydy Strategaeth y CDLI presennol ddim yn gweithio, fel y gwelwyd o Adroddiadau Monitro Blynnyddol y CDLI Dydy'r l;feel o dwf ddim wedi'i chyflenwi ac mae'r symudiad i Lynebwy eto i'w gwreiddu oherydd yr oedi yn dwyn ymlaen y ddwy Safle Strategol. Ystyri bod y ffocws ar Lynebwy yn tynnu sylw oddi ar yr her o greu rhwydwaith o gymunedau yn y cymoedd. Fe fyddai gormod o bwyslais ar Lynebwy yn gosod pwysedd ar wasanaethau. Defnyddiodd y CDLI presennol rôl a swyddogaeth aneddiadau i ganfod hierarchiaeth yr aneddiadau gydag Glynebwy fel y prif ganolfan yn yr ardal. Dim ond canran bach (7%) o'r rhanddeiliaid a gefnogodd opsiwn y CDLI presennol.
Opsion 2: Pwyslais ar Flaenau'r Cymoedd	Mae'r opsiwn hwn yn galluogi adeiladu ar y cyfleoedd ar hyd aneddiadau Blaenau'r Cymoedd Fodd bynnag, gellid ystyried hon fel strategaeth sy'n seiliedig ar ffyrdd a dydy honno ddim yn strategaeth gynaliadwy. Mae'r twf i'w ddosbarthu yn seiliedig ar asesiad cynaliadwyedd aneddiadau, er gyda ffocws twf ar aneddiadau Blaenau'r Cymoedd. Cafodd yr Opsion hwn gefnogaeth bron i draean o'r rhanddeiliaid.
Opsion 3: Twf Cytbwys	Cynigiodd yr opsiwn hwn bod twf yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal ledled aneddiadau'r Fwrdeistref. Roedd hyn yn cefnogi gweledigaeth y cynllun i greu rhwydwaith o gymunedau llewyrchus yn y cymoedd. Gall fanteisio ar gynlluniau i wella cysylltedd trwy gynigion y Metro a thrwy hynny gynnal opsiynau trafniadaeth cynaliadwy. Mae'r twf i'w ddosbarthu yn seiliedig ar asesiad cynaliadwyedd yr aneddiadau. Cafodd yr opsiwn hwn gefnogaeth mwyafrif y rhanddeiliaid (63%).

2.28 Mae hi'n glir o'r dadansoddiad o'r opsiynau gofodol mai Opsion 3 oedd yr opsiwn dethol ac y byddai'n cynnal y weledigaeth a glustnodwyd ar gyfer y Cynllun.

Opsionau'r strategaeth ofodol

2.29 Cyfunwyd opsiynau'r strategaeth ofodol a thwf i greu nifer o opsiynau. Lluniwyd tri opsiwn i ddechrau, ac ychwanegwyd opsiwn arall wedi ymgynghori ag Aelodau.

Opsionau (math)	Rhesymau amlinellol
Opsion 1: Twf ac Adfywiad (CDLI presennol)	Cyfunodd yr opsiwn hwn lefel ganolig o dwf gyda dosbarthiad ofodol y CDLI o raniad gogledd-de gyda Glynebwy fel y ffocws twf. Roedd y lefel ganolig o dwf yn golygu ei bod hi'n llai tebygol o gyflenwi twf ar raddfa fwy ynghyd â'r gwelliannau cysylltiedig. Perfformiodd y strategaeth ofodol yn dda yn nhermau strategaethau cenedlaethol, strategaethau ehangach, dyheudasau'r cynllun, argaeledd a chynaliadwyedd tir llwyd, safleoedd tai'r farchnad agored, y gallu i gyflenwi, hygyrchedd i gyflogaeth, lleihau'r angen i deithio a goblygiadau amgylcheddol. Yn gyffredinol, lefel y twf a'r ffocws ar Lynebwy a arweiniodd at benderfynu mai hon fyddai'r strategaeth ddewisol.
Opsion 2: Cymuedau Cytbwys wedi'u Cydgyssylltu	Cyfunodd yr opsiwn hwn lefel isel o dwf gyda strategaeth o wasgaru. Perfformiodd y strategaeth hon yn dda yn nhermau datgarboneiddio a goblygiadau amgylcheddol. Ond roedd ei lefel isel o dwf a'i strategaeth wasgaru'n golygu nad oedd yn cyflenwi o ran strategaethau ehangach, dyheudasau'r cynllun, tir llwyd, lleoliad tai'r farchnad agored a fforddiadwy, hyfywedd, hygyrchedd at gyflogaeth a lleihau'r angen i deithio. Roedd lefel y twf, ynghyd â'i strategaeth wasgaru yn golygu iddo berfformio'n wael, gan arwain at ei ddiystyru fel strategaeth ddewisol.
Opsion 3: Twf Economaidd	Cyfunodd yr opsiwn hwn lefel uchel o dwf gyda ffocws ar aneddiadau Blaenau'r Cymoedd. Perfformiodd y strategaeth hon yn well yn nhermau strategaethau ehangach, dyheudasau'r cynllun, argaeledd safleoedd tir llwyd, a hygyrchedd at gyflogaeth. Fodd bynnag, perfformiodd yn wael yn nhermau datgarboneiddio, y gallu i gyflenwi, lleihau'r angen i deithio a goblygiadau amgylcheddol. Er fod lefel y twf yn golygu ei fod wedi perfformio'n dda mewn rhai meysydd, arweiniodd hefyd at effaith negyddol mewn meysydd eraill. Yn yr un modd, cymysg oedd effaith y ffocws ar aneddiadau Blaenau'r Cymoedd. Arweiniodd hyn at ei ddiystyru fel strategaeth ddewisol.

Opsiynau (math) Rhesymau amlinellol

Opsiwn 4: Twf Economaidd Cynaliadwy	<p>Cyfunodd yr opsiwn hwn lefel uchel o dwf gyda strategaeth wasgaru.</p> <p>Perfformiodd y strategaeth hon yn dda yn nhermau cwrdd ag anghenion ehangach y boblogaeth.</p> <p>Fodd bynnag, perfformiodd yn wael yn nhermau datgarboneiddio, strategaethau ehangach, dyheuadau'r cynllun, argaeledd safleoedd ti llwyd, hygyrchedd at gyflogaeth, y gallu i gyflenwi, lleiha'r angen i deithio a goblygiadau amgylcheddol.</p> <p>Er fod lefel y twf a'r dobarthiad gofodol wedi derbyn cefnogaeth y rhanddeiliaid, canfyddwyd gwendidau yn y strategaeth yn ddiweddarach.</p>
-------------------------------------	--

2.30 Yn dilyn ymgynghoriad gyda Llywodraeth Cymru ar yr opsiynau strategaethau gofodol uchod, lluniwyd opsiwn diwygiedig i fynd i'r afael â'r pryderon a'r gwendidau a nodwyd trwy'r asesiad:

Opsiynau (math) Rhesymau amlinellol

Opsiwn 5 Twf Economaidd Cynaliadwy	<p>Arweiniodd y pryderon ynghylch y gallu i gyflenwi'r lefel o dwf ac asesiad cynaliadwyedd yr aneddiadau at newidiadau i Opsiwn Strategaeth Twf Economaidd Cynaliadwy.</p> <p>Cymerwyd pen isa'r opsiwn twf uchel ymlaen fel y lefel o dwf i anelu amdani a nodwyd ffigwr newydd yn seiliedig ar aneddeleoedd ar gyfer ffigwr y gofyniad tai. Mae newidiadau i'r hieracrchiaeth aneddiadau'n golygu bod twf bellach wedi'i canolbwyntio fwyfwy ar yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy.</p> <p>Mae'r strategaeth yn perfformio'n rhesymol yn nhermau strategaethau cenedlaethol, goblygiadau amgylcheddol a ffactorau cymdeithasol a diwylliannol.</p> <p>Mae'r strategaeth yn perfformio'n dda yn nhermau strategaethu ehangach, dyheuadau'r cynllun, tir llwyd, y gallu i gyflenwi, hygyrchedd i gyflogaeth, lleihau'r angen i deithio.</p> <p>Yn gyffredinol, ystyrir y strategaeth fel un sy'n perfformio'n dda, ac hefyd yn seliedig ar y strategaeth mae'r rhanddeiliaid yn ei ffafrio.</p>
------------------------------------	--

**Rhan 2: Beth ydy
casgliadau'r ACI hyd yn hyn?**

3. Casgliadau'r arfarniad hyd yn hyn

- 3.1 Mae rhan 2 o Adroddiad ACI a'r Crynodeb Annhechnegol hwn yn ateb y cwestiwn – Beth ydy casgliadau'r arfarnu hyd yn hyn? – trwy gyflwyno arfarniad o'r Ddogfen Strategaeth Ddewisol. Ceir crynodeb o gasgliadau'r arfarniad isod.
- 3.2 Canfu'r ACI fod gan y Strategaeth Ddewisol potensial effeithiau cadarnhaol arwyddocaol mewn perthynas â themâu ACI yr economi a chyflogaeth a phoblogaeth a chymunedau. Mae'n cynnig lefel o dwf i gwrdd ag anghenion cymunedau yn ystod cyfnod y cynllun ac yn eu dosbarthu yn ôl hierarchiaeth yr aneddeuoedd, gyda mwyafrif y twf wedi'i ganolbwyntio ar aneddiadau lle ceir hygyrchedd da i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy a chyfleusterau/ gwasanaethau/ cyfleoedd cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli. Lle bo'n bosib, mae'n manteisio ar gyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno trwy Fargen Prifddinas Caerdydd a Metro De-ddwyrain Cymru.
- 3.3 Cynigir tair safle defnydd cymysg strategol trwy'r Strategaeth Ddewisol, er na wyddys eto am gynllun y safleoedd a does dim manylion ar gael mewn perthynas â safleoedd anstrategol llai. Yn y cyd-destun hwn, doedd yr ACI ddim yn medru rhagweld na thynnu casgliadau diffiniol mewn perthynas â natur ac arwyddocâd yr effeithiau sy'n debygol o godi mewn perthynas â bioamrywiaeth, yr amgylchfyd hanesyddol, trafnidiaeth ac adnoddau naturiol. Tynnodd yr arfarniad sylw at botensial effeithiau cadarnhaol a negyddol, yn ddibynnol ar union leoliad y twf a graddfa'r datblygiad ar y safleoedd. Rhoddir ystyriaeth i Safleoedd sydd dan sylw trwy broses ACI mewn da bryd a bydd y casgliadau'n cyfeirio datblygiad y Cynllun wedi'i Adneuo.
- 3.4 Canfu'r ACI fod gan y Strategaeth Ddewisol botensial effeithiau cadarnhaol hirdymor ar themâu'n ymwneud â newid hinsawdd, iechyd a lesiant, a chydaddoldebau, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol. Fodd bynnag, o gofio graddfa'r twf, mae hi'n annhebygol y byddai'n arwain at effaith arwyddocaol weddilliol.
- 3.5 Mae **Tabl 3.1** isod yn gosod allan grynodeb o gasgliadau'r arfarniad ar gyfer y Strategaeth Ddewisol 'yn ei chyfanrwydd' yn erbyn pob un thema ACI.

Tabl 3.1: Crynodeb o gasgliadau'r arfarniad

Thema ACI	Sylwadau	Effaith arwyddocaol weddilliol a ragwelir ar hyn o bryd?
Economi a chyflogaeth	Mae'r Startegaeth Ddewisol yn cynnig cyflenwi tir cyflogaeth a chartrefi newydd i gwydd â'r anghenion a ganfyddwyd a darparu hyblygrwydd yn ystod cyfnod y cynllun. Yn gyffredinol, mae'r Startegaeth Ddewisol yn cefnogi dyheuadau twf y Cyngor yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd sy'n codi o gynigion Bargaen y Brifddinas, Gweithlu'r Cymoedd, y Cymoedd Technoleg, Parth Menter a'r Metro. Fel canlyniad, fe ddylai helpu cynyddu'r raddfa o weithgarwch, gostwng anweithgarwch economaidd a lleihau allgymudo ymysg y boblogaeth bresennol.	Oes - Cadarnhaol
Poblogaeth a chymunedau	Mae'r Strategaeth Ddewisol yn cynnig cyflenwi 2,115 o aneddiadau, gydag o leiaf 478 ohonyn nhw'n fforddiadwy, yn aneddeleoedd mwyaf cynaliadwy'r Sir, gyda thwf yn bennaf wedi'i ganolbwyntio ar dair safle amlddefnydd strategol yng ngogledd ardal y cynllun yn Y Gwaith, Glynebwy, Coridor Gogleddol Glynebwy a Nant-y-glo. Mae'r dosbarthiad enag wedi'i gefnogi gan nifer o bolisiau sy'n debygol o gyfrannu at effeithiau cadarnhaol mewn perthynas â darparu ystod o gartrefi mewn lleoliadau cynaliadwy a gwella ansawdd dylunio. Mae'r negeseuon allweddol o'r polisiau strategol perthnasol yn cynnwys: sefydlu ffafrio safleoedd tir llwyd dros feysydd glas; sicrhau bod tir ar gael ar gyfer adeiladwyr bach a chanolig i wneud yn siwr nad ydy'r cyflewni'n dod yn unig oddi wrth prif ddatblygwyr ar safleoedd strategol; sefydlu cyfleoedd i hygyrchu gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn gynaliadwy mewn datblygiad newydd, ag; alinio datblygiad cartrefi newydd gyda datblygu tir cyflogaeth newydd.	Oes - Cadarnhaol
Iechyd a llesiant	Mae'r Strategaeth Ddewisol yn cynnig cyfleoedd i gysylltu datblygiadau newydd gyda'r rhydwdeithiau isadeiledd cerdded, seiclo a Gwyrdd presennol ymhob un o'r prif aneddiadau, tra'n cynnig y potensial i sicrhau gwelliannau i'r rhwydweithiau hyntrwy'r broses ddatblygu. Lle bo'n bosib, mae'r Strategaeth Ddewisol yn cefnogi twf mewn lleoliadau lle mae'r potensial i allu cyrraedd nwyddau, gwasanaethau a chyflogaeth leol trwy opsiynau teithio iach, yn amodol ar fanylion dylunio a chynllunio'r safle. Mae hefyd yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'r twf mewn tai i aneddiadau sydd â'r ystod ehangach o gyfleusterau gofal iechyd, gan olygu hefyd y bydd gofyn gwella'r cyfleusterau hynny fel bo'r angen trwy'r broses ddatblygu er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Er y rhagwelir mai cadarnhaol fyddai'r effeithiau yn gyffredinol, ystyrir hi'n annhebygol y bydden nhw'n arwyddocaol o gofio graddfa'r twf.	Nacoes
Cydraddoldebau, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol	Mae polisiau strategol y Strategaeth Ddewisol yn datgan bod gwella hygyrchedd i wasanaethau allweddol o arwyddocâd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac amddifadedd, megis cyflogaeth, hyfforddiant a gofal iechyd, yn flaenoriaeth i'r CDLIN. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar wella hygyrchedd at ganolfannau gwasanaethu trwy ddulliau trafndiaeth cynaliadwy, ac ar gynllunio datblygiadau newydd fel y gall holl aelodau'r gymuned gyrraedd a defnyddio'r gwasanaethau cyfun hyn yn ddiogel a chyfleus. Tra bydd ymdrechion i leihau tlodi ac anghydraddoldeb, mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol yn amlwg yn gofyn cael dull sy'n newid pwyslais, a hwnnw'n gydweithrediad rhwng ystod o ffarparwyr gwasanaethau, ystyrir fod y Strategaeth Ddewisol yn debygol o wneud cyfraniad cadarnhaol hirdymor tuag at fynd i'r afael ag amcanion themâu cydraddoldebau, amrywiaeth ac allgáu cymdeithasol yr ACI, er y byddai'r effaith gweddilliol yn annhebygol o fod yn arwyddocaol.	Nacoes
Trafnidiaeth a symudiad	Trwy ffocysu twf yn aneddiadau Haen 1 a 2, mae'r Strageaeth Ddewisol yn cyfeirio mwyafrif y datblygiad newydd at leoliadau sydd agosaf at dtrafnidiaeth gyhoeddus, gwasanaethau, cyfleusterau chyflogaeth leol. Gall hyn helpu lleihau'r angen i deithio mewn car i gwrdd â rhai anghenionac fe all helpu hwyluso cerdded a seiclo. Mae polisiau strategol y Strategaeth Ddewisol yn sefydlu cefnogaeth glir dros sicrhau cynnwys cysylltedd cerdded a seiclo yn y datblygiad newydd er mwyn cysylltu cartrefi a safleoedd cyflogaeth newydd gyda gwasanaethau a chyfleusterau trwy deithio actif. Yn gyffredinol, mae potensial am effeithiau cadarnhaol mewn perthynas â thrafnidiaeth a symudiad, er y bydd graddfa'r arwyddocâd yn cael ei harwain gan gynllun y safleoedd a ddosrennir, yn enwedig safleoedd strategol, yn ogystal â'r graddau y bydd isadeiledd teithio actif yn cael ei gyflenwi trwy'r cynlluniau terfynol.	Ansicr

**Effaith arwyddocaol
weddilliol a ragwelir ar
hyn o bryd?**

Thema ACI**Sylwadau****Adnoddau naturiol**

Mae'r Strategaeth Ddewisol yn ffocysu mwyafrif y twf ar Lynebwy a'r prif aneddiadau, sy'n golygu y gall y bydd cyfleoedd i geisio cyflenwi ar safleoedd tir llwyd yn yr ardaloedd trefol presennol. Byddai hyn yn helpu cyfeirio datblygiad oddi wrth dir amaethyddol ac yn gyson gydad amcan adnoddau naturiol yr ACI i wneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd eisoes ac i leihau'r pwysedd am ddatblygiad ar feysydd glas. Mae hi'n annhebygol y bydd yr effaith weddilliol yn arwyddocaol gan nad oes ardaloedd arwyddocaol o dir amaethyddol o ansawdd uchel o fewn y Sir. Ystyrir y byddai sefyllfa sylfaenol y Sir mewn perthynas ag ansawdd aer ac adnoddau dŵr yn annhebygol o gael ei effeithio gan y datblygiad a gynigir trwy'r Strategaeth Ddewisol. Mae'n bosib y byddai datblygiadau arfaethedig yn disgyn o fewn ardal o fwynau a ddiogelir ond mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, effaith ansicr a ragwelir ar yr adeg hyn gan fod natur ac arwyddocâd effeithiau yn ddibynnol ar union leoliad y twf.

Ansicr**Bioamrywiaeth a
geoamrywiaeth**

Mae gan ddsbarthiad arfaethedig y twf trwy'r Strategaeth Ddewisol y potensial i weld datblygiadau newydd yn cael eu cyflenwi yn weddol agos at nifer o safleoedd cynodedig. Dydy'r ARhC ddim yn medru cadarnhau na fydd effeithiauandwyol ar safleoedd Ewropeaidd ar hyn o bryd hyd nes bydd gwaith pellach i gasglu tystiolaeth yn cael ei gynnal ac y gwyddys union leoliad y datblygiad. Mae gan ddatblygiadau a gynigir trwy'r strategaeth ddewisol y potensial i effeithio ar fioamrywiaeth sy'n gallu bod yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae'r Strategaeth Ddewisol yn cynnwys polisiau sy'n ceisio diogelu a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth. Ar hyn o bryd, ansicr ydy'r effeithiau, gan bod natur ac arwyddocâd effeithiau'n ddibynnol ar union leoliad y datblygiad.

Ansicr**Amgylchfyd
hanesyddol**

Gan nad oes unrhyw safle/ddosraniad penodol wedi'i nodi hyd yn hyn, mae hi'an anodd rhagweld na thynnu unrhyw gasgliadau diffiniol gyda golwg ar natur ac arwyddocâd effeithiau sy'n dsbygol o godi mewn perthynas â thema'r amgylchfyd hanesyddol/amcanion ACI. Mae saw lased treftadaeth dynodedig oddi fewn ac o amgylch y prif aneddiadau lle'r cyfeiri y mwyafrif o'r twf. Fel canlyniad, mae potensial effeithiau ar y derbynnyddion sensitif hyn, gan gynnwys eu lleoliad. Mae'r Strategaeth Ddewisol yn cynnwys polisiau sy'n ceisio a lle bo'n bosib, gwella'r dirwedd a'r amgylchfyd hanesyddol. Wrth ystyried yr uchod, nodir effaith ansicr ar hyn o bryd gan fod natur ac arwyddocâd yr effeithiau'n ddibynnol ar union leoliad a graddfa'r twf. Dydy'r Strategaeth Ddewisol ddim yn debygol o gael unrhyw effaith uniongyrchol nag arwyddocaol ar y Gymraeg – yn anuniongyrchol, mae'r cynlluniau tai a swyddi newydd sydd yn yr arfaeth i gwrdd ag anghenion, yn ogystal ag isadeiledd ehangach, y potensial am effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg ond dydy'r rhain ddim yn debygol o fod yn rhai arwyddocaol.

Ansicr**Tirwedd**

Mae gan ddatblygiadau a gynigir trwy'r Strategaeth Ddewisol y potensial am effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y dirwedd/treflun, gan gynnwys tiweddau arbennig megis y Parc Cenedlaethol. Mae polisiau strategol yn anelu at ddiogelu a gwella nodweddion/ ardaloedd o dirwedd pwysig; yn enwedig trwy ddiogelu meysydd glas, y tu allan i ffiniau aneddiadau, rhag datblygiadau amhriodol. Ar hyn o bryd, ansicr ydy'r effeithiau, gan bod natur ac arwyddocâd effeithiau'n ddibynnol yn y pendraw ar union leoliad a chynllun y datblygiad.

Ansicr**Newid Hinsawdd**

Ystyrir y gellir, yn unol â pholisi cenedlaethol, lleoli datblygiad mewn ardaloedd sydd â risg isel o lifogydd ac y gellir darparu lliniaru priodol, er fod hyn yn ansicr hyd nes y gwyddys lleoliadau'r safleoedd. Er fod gan unrhyw raddfa o dwf y potensial i gynyddu allyriadau o'r amgylchfyd adeileddig i ryw raddau, mae natur cyfyngedig y twf a'i ddefnydd effeithlon o'r tir sydd ar gael (h.y. heb ehangu'r ardal adeileddig yn gyffredinol) yn golygu bod effeithiau'n annhebygol o fod yn arwyddocaol. Mae polisiau'r Strategaeth Ddewisol yn ceisio lleihau effeithiau andwyol mewn perthynas â llifogydd ac allyriadau, neu i lliniaru'r rhain lle nad ydy hi'n realistig neu'n ymarferol i'w hosgoi. Sefydliir hefyd gofynion i gyflenwi effeithlonrwydd ynni uchel ymhob datblygiad newydd a chefnogaeth mewn egwyddor i gynhyrchu ynni carbon isel. gefnogi. Yn gyffredinol, rhagwelir mân-ffeithiau cadarnhaol hirdymor mewn perthynas â newid hinsawdd, er fod y datblygiad arfaethedig yn golygu nad ystyrir y bydd y rhain yn debygol o fod yn arwyddocaol.

Nacoes

Rhan 3: Beth sy'n digwydd nesaf?

4. Camau nesaf a monitro

- 4.1 Mae Rhan 3 o Adroddiad Cychwynnol AC a'r Crynodeb Annhechnegol hwn yn egluro'r camau nesaf yn y broses creu cynlluniau/AC.

Camau nesaf

- 4.2 Bydd Adroddiad Cychwynnol AC a'r Crynodeb Annhechnegol yma'n mynd gyda'r Strategaeth Ddewisol ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ym mis Ionawr 2020. Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu harchwilio a'u hystyried fel rhan o'r broses creu cynlluniau ac ACI ailadroddol.
- 4.3 Bydd y sylwadau a dderbynnir, ynghyd â gwaith tystiolaeth bellach, gan gynnwys Gwaith ACI pellach, yn hysbysu datblygiad y CDLIN wedi'i Adneuo, y bwriedir ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn 2020. Bydd Adroddiad ACI diweddaraf yn mynd gyda'r CDLIN wedi'i Adneuo at ymgynghoriad.

Monitro

- 4.4 Sefydlir mesurau monitro oddi fewn i fersiwn nesaf Adroddiad ACI i fynd i'r afael â'r effeithiau arwyddocaol posib sy'n gysylltiedig â Fersiwn Adneuo'r cynllun. Ar hyn o bryd, does dim mesurau wedi'u canfod, gan nad ydy'r CDLIN wedi'i gwblhau eto.

